**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 23ain Mehefin, 2022 at 2.00 pm**

**PRESENT:** County Councillor Laura Wright (Chairman)
County Councillor Ann Webb (Vice Chairman)

County Councillors: Tony Kear, Catrin Maby, Jan Butler, Ian Chandler, Sara Burch, Alistair Neill, Su McConnel, Mary Ann Brocklesby, Fay Bromfield, Jane Lucas, Emma Bryn, Peter Strong, Meirion Howells, Paul Griffiths, Jackie Strong, Rachel Garrick, Steven Garratt, Angela Sandles, Ben Callard, John Crook, Tomos Davies, Dale Rooke, Catherine Fookes, Sue Riley, Jayne McKenna, Jill Bond, Louise Brown, Lisa Dymock, Tony Easson, Christopher Edwards, Bob Greenland, Martyn Groucutt, Simon Howarth, Richard John, David Jones, Penny Jones, Malcolm Lane, Paul Pavia, Maureen Powell, Frances Taylor, Tudor Thomas and Armand Watts

**OFFICERS IN ATTENDANCE:**

| | |
|---|---|
| Matt Phillips | Pennaeth Cyfraith/Swyddog Monitro |
| Paul Matthews | Prif Weithredwr |
| Peter Davies | Prif Swyddog, Adnoddau |
| Jane Rodgers | Pennaeth Gwasanaethau Plant |
| Will Mclean | Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc |
| Nicola Perry | Uwch Swyddog Democratiaeth |
| Frances O'Brien | Prif Swyddog, Cymunedau a Lle |
| Matthew Gatehouse | Pennaeth Polisi a Llywodraethiant |
| Adam Fall | Local Democracy and Digital Apprentice |

**APOLOGIES:**

County Councillors Maria Stevens and Phil Murphy

1. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfodydd dilynol:**

2. **17 Mai 2022**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 17 Mai 2022.

3. **19 Mai 2022**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 19 Mai 2022.

4. **Datganiadau o Fuddiant**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

5. **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Nid oedd unrhyw gwestiynau gan y Cyhoedd.

6. **Cyhoeddiad y Cadeirydd a derbyn deisebau**

Ni chyflwynwyd unrhyw ddeisebau.

Ar Ddiwrnod Rhyngwladol Menywod mewn Peirianneg, teimlai'r Cyngor Simon Howarth ei bod yn bwysig fod y Cyngor yn hyrwyddo menywod ym maes peirianneg.

## 7. Maes Llafur a Gytunwyd gan Sir Fynwy ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Cyflwynodd y Cynghorydd Sir Martyn Groucutt, Aelod Cabinet dros Addysg, yr adroddiad er mwyn i'r Cyngor dderbyn ac ystyried y darpar Faes Llafur a Gytunwyd gan Sir Fynwy ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Wrth wneud hynny, llongyfarchodd yr Aelod Cabinet aelodau pwyllgor CYSAG ar baratoi'r ddogfen newydd.

Nodwyd y cafodd unrhyw ddryswch am ffurf y maes llafur ei drin ar gyfer fersiwn terfynol y ddogfen.

Cytunodd yr Aelod Cabinet i adolygu'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb i sicrhau eglurhad rhwng Cydberthynas a Rhyw â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

**Mewn pleidlais penderfynodd y Cyngor i dderbyn yr argymhelliad:**

**Bod y Cyngor yn mabwysiadu Maes Llafur a Gytunwyd gan Sir Fynwy ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.**

## 8. Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, Ysgol 3-19 y Fenni

Cyflwynodd y Cynghorydd Martin Groucutt, Aelod Cabinet dros Addysg, yr adroddiad i geisio cymeradwyaeth y Cyngor i gynnwys adeiladu ysgol 3-19 newydd ar safle Brenin Harri VIII yn Rhaglen Cyllid Cyfalaf y Cyngor. Sefydlir yr ysgol 3-19 newydd drwy gau Ysgolion Brenin Harri VIII ac Ysgol Deri View, fel y cytunwyd yng nghyfarfod Cabinet Cyngor Sir Fynwy ar 19 Ionawr 2022. Bydd y cyllid yn galluogi adleoli Ysgol y Fenni i safle presennol Deri View.

Roedd llawer o Aelodau yn awyddus i gefnogi'r argymhellion a chymeradwyo'r prosiect.

Gofynnwyd am sicrwydd y caiff cynlluniau cadarn ar gyfer teithio llesol eu datblygu ac y gosodir targedau o'r cam cynllunio, gan hyrwyddo opsiynau teithio llesol a chynaliadwy i sicrhau nad yw tagfeydd traffig yn gysylltiedig ag ysgolion yn arwain at ansawdd aer gwael yn yr ardal leol.

Gwnaed yr argymhellion dilynol i gefnogi'r datblygiad:

- Ymgysylltu gyda phreswylwyr o bob oed.
- Safle dros dro yn y dref ar wahanol gyfnodau o gwblhau'r gwaith i gynyddu ymgysylltu, efallai safle parhaol yn y farchnad.
- Cystadleuaeth i greu celfwaith neu gerflun i gael ei leoli yn yr ysgol.
- Ymestyn llwybrau seiclo diogel i safle gollwng ar ymyl y dref lle gellid gosod raciau beic.

Ar ran y Grŵp Ceidwadol, canmolodd Arweinydd yr Wrthblaid yr holl swyddogion a fu'n ymwneud â'r prosiect a Ms. Lewis am ei harweinyddiaeth. Holodd os oedd swyddogion yn hyderus y bydd y cladin a ddefnyddir yn gynaliadwy.

Diolchodd Arweinydd y Cyngor i Lywodraeth Cymru am y buddsoddiad oedd yn galluogi datblygiad y drydedd Ysgol 21ain Ganrif.

Gofynnwyd cwestiwn am agwedd economaidd-gymdeithasol yr Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb a'r effaith ar y rhai sy'n derbyn prydau ysgol am ddim. Roedd yr Aelod Cabinet dros Addysg yn gefnogol i'r Asesiad ac esboniai y credai y byddai anghenion plant oedran cynradd yn cael eu diwallu'n llawer mwy effeithiol nag a fu'n bosibl yn y gorffennol.

Roedd swyddogion wedi rhoi sicrwydd yn flaenorol i'r Cynghorydd Sir Tony Easson na fyddai'r paneli cladin a ddefnyddir yn cynhyrchu fawr neu ddim mwg ac na fyddent yn cynhyrchu diferion fflamychol.

**Mewn pleidlais penderfynodd y Cyngor dderbyn yr argymhellion:**

**Bod y Cyngor yn nodi y cafwyd cymeradwyaeth y Gweinidog i'r Achos Busnes Llawn yn gadarnhau ymrwymiad Llywodraeth Cymru a'u cyfraniad o £47,024,335 (67%) tuag at gyfanswm cost adeiladu ysgol 3-19 newydd o £69,292,62**

**Bod y Cyngor yn cymeradwyo cynyddu'r gyllideb gymeradwy o fewn Rhaglen Gyfalaf y Cyngor o £43,000,000 i £69,792,623, gan adlewyrchu'r gost adeiladu ddiwygiedig o £69,292,623 a £500,000 ychwanegol sydd ei angen ar gyfer gwelliannau cysylltiedig i briffyrdd.**

**Bod y Cyngor yn nodi y bydd y cynnydd yn y gyllideb angen ymrwymiad pellach o fenthyca'r Cyngor o £7,718,288 a bod costau cyllideb refeniw dilynol ar gyfer gwasanaethu'r benthyca hyn fel yr amlinellir yn adran adnoddau yr adroddiad hwn.**

**Bod y Cyngor yn nodi penodi Morgan Sindall Construction i adeiladu'r ysgol 3-19 newydd.**

**Datgan bod Ysgol Gynradd Gymraeg y Fenni dros ben y gofynion, ac y bydd y Tîm Datblygu Stadau yn gwaredu â hi ar delerau i'w cytuno mewn ymgynghoriad gyda'r Prif Swyddog Adnoddau.**

**9. Penodiadau i Gyrff Allanol – lleoedd gwag**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Pobl a Llywodraethiant yr adroddiad i drin gweddill y lleoedd gwag ar yr adroddiad Cyrff Allanol a drafodwyd yng nghyfarfod y Cyngor Sir ar 19 Mai 2022.

Nodwyd fod dau le gwag yn dal i fod ar yr adroddiad.

**Mewn pleidlais penderfynodd y Cyngor i dderbyn yr argymhelliad:**

**Bod y Cyngor yn gwneud apwyntiadau i'r cyrff allanol a nodir yn yr atodlen.**

**10. Cynigion i'r Cyngor:**

**11. Cyflwynwyd gan y Cynghorydd Sir Frances Taylor**

*Bod y Cyngor hwn yn cytuno i ysgrifennu at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol er mwyn gofyn am adolygu'r fformiwla sy'n sail i gyllid awdurdodau lleol sydd heb ei neilltuo drwy'r setliad llywodraeth leol. Yn arbennig, bod ailystyried yr elfennau o'r fformiwla sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau mewn sir wledig gan fwyaf.*

Cafodd y cynnig ei eilio gan y Cynghorydd Sir Ian Chandler.

Roedd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau yn cydnabod fod Fformiwla Barnett wedi arwain at ddyraniadau gwael i Gymru dros y blynyddoedd ac wedi ei feirniadu'n gyhoeddus gan lawer am ei fethiant i ddeall cyfansoddiad poblogaeth Cymru. Cytunodd y gallai'r Cyngor ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ar y cynnig ond tynnodd sylw at y ffaith y caiff y fformiwla ei hadolygu'n flynyddol.

Clywsom fod tlodi ac anghydraddoldeb yn ffocws allweddol i'r weinyddiaeth ac mai dyma'r brif flaenoriaeth ar y maniffesto. Mae targedau cliriach yn nhermau'r cynllun gweithredu tlodi a'r strategaeth cyfiawnder cymdeithasol i gael eu gweithredu.

**Mewn pleidlais penderfynodd y Cyngor yn unfrydol i dderbyn y cynnig.**

## 12. Cyflwynwyd gan y Cynghorydd Sir Richard John

*Mae'r Cyngor hwn yn cofnodi ei edmygedd enfawr a'i ddiolch twymgalon i'w Mawrhydi y Frenhines am oes o wasanaeth cyhoeddus ymroddedig ac yn croesawu'r dathliadau cymunedol llwyddiannus a gynhelir ar draws Sir Fynwy i nodi Jiwbilî Platinwm Ei Mawrhydi.*

*Mae'r Cyngor yn cytuno y bydd yr holl arweinwyr grŵp yn llofnodi llythyr ar y cyd i'w Mawrhydi ar ran pobl Sir Fynwy yn cynnig ein llongyfarchiadau gwresog a'n diolch am bopeth a wnaiff Ei Mawrhydi a'r Teulu Brenhinol dros ein preswylwyr.*

Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Sir Lisa Dymock a soniodd am y digwyddiadau a gynhaliwyd ar draws y Sir ar gyfer dathliadau'r Jiwbilî Platinwm.

Clywsom am lyfr coffa a ddosberthir i bob plentyn ysgol cynradd ar draws Cymru.

**Croesawodd yr arweinwyr grŵp y cynnig ac mewn pleidlais penderfynodd y Cyngor i dderbyn y cynnig.**

## 13. Cyflwynir gan y Cynghorydd Sir Tony Kear

*Mae'r Cyngor hwn yn:*
*Nodi penderfyniad y cyngor llawn ym mis Mawrth i ddod y cyntaf yng Nghymru i ddatgan argyfwng ansawdd dŵr a chomisiynu strategaeth i wella ein dyfrffyrdd.*
*Pryderu'n fawr am y dirywiad yng nghyflwr yr Afon Gwy a'r Afon Wysg yn Sir Fynwy ac yn neilltuol arllwys carthffosiaeth amrwd yn ormodol a heb drwydded i'r Afon Wysg sy'n bygwth bioamrywiaeth a bywyd gwyllt yn ogystal â nifer y pysgod.*
*Ymrwymo'r Arweinydd a'r Aelod Cabinet i weithio gyda'r gwrthbleidiau ac awdurdodau perthnasol i sicrhau y gweithredir i wella iechyd ein hafonydd cyn iddi fod yn rhy hwyr.*

Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Sir Jane Lucas.

*Gadawodd y Cynghorydd Sir Simon Howarth y cyfarfod am 16:09pm.*

Croesawodd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd y cynnig a'i gymeradwyo yn llawn. Esboniodd ei bod eisoes wedi ymestyn mas at Gyngor Powys a Chyngor Swydd Henffordd, yn ogystal â grwpiau cymunedol sy'n bryderus am les ein hafonydd. Cafodd y Cynghorydd Maby hefyd ei gwahodd i gyfarfod gydag AS Henffordd ac mae wedi cwrdd gyda Dŵr Cymru ynghyd â staff y Cyngor.

Wrth gefnogi'r cynnig, dywedodd yr Aelod Cabinet y caiff y drychineb ecolegol a welwn yn ein hafonydd ei hachosi gan arllwysiad carthffosiaeth ond hefyd gan arferion rheoli tir amaethyddol, yn neilltuol ffermio dofednod dwyster uchel a ffermio gwartheg gor-ddwys.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir Ian Chandler welliant i'r cynnig, a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Frances Taylor.

*Mae'r Cyngor hwn yn:*
*Nodi penderfyniad y cyngor llawn ym mis Mawrth i ddod y cyntaf yng Nghymru i ddatgan argyfwng ansawdd dŵr a chomisiynu strategaeth i wella ein dyfrffyrdd.*
*Pryderu'n fawr am y dirywiad yng nghyflwr yr Afon Gwy a'r Afon Wysg yn Sir Fynwy a'r* ***ffynonellau lluosog o ffosffadau a llygrwyr eraill yn cynnwys y rhai sy'n tarddu i fyny'r afon tu allan i Sir Fynwy,*** *sy'n bygwth bioamrywiaeth a bywyd gwyllt yn ogystal â nifer y pysgod.*
*Ymrwymo'r Arweinydd a'r Aelod Cabinet i weithio gyda* ***grwpiau'r*** *gwrthbleidiau ac awdurdodau perthnasol yn cynnwys* ***Cyngor Sir Powys a Chyngor Swydd Henffordd*** *i sicrhau y gweithredir i wella iechyd ein hafonydd cyn iddi fod yn rhy hwyr.*

Yn dilyn trafodaeth penderfynodd y Cyngor dderbyn y gwelliant, a ddaeth y prif gynnig.

**Mewn pleidlais penderfynodd y Cyngor dderbyn y cynnig.**

## 14. Cyflwynwyd gan y Cynghorydd Sir Louise Brown

Mae'r Cyngor hwn yn:
Nodi bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu peidio symud ymlaen gydag astudiaeth WelTAG 2 ar yr opsiynau ar gyfer gwella cylchfan High Beech yng Nghas-gwent eleni.
Galw ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo fel mater o frys a rhoi cefnogaeth ariannol i bob un o bum cam yr astudiaeth a gweithredu astudiaethau a gwelliannau cylchfan High Beech fel blaenoriaeth, gan fod y tagfeydd traffig dyddiol a'r oedi teithio hysbys iawn ar y man gwasgu hwn yn cael effaith niweidiol ar fywydau preswylwyr ym mhob maes o fywyd yn cynnwys teithio i'r gwaith, ysgol, siopa a dibenion hamdden.

Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Sir Ann Webb.

Cydnabuwyd fod hwn yn bwnc llosg ar gyfer y rhai sy'n byw yng Nghas-gwent.

Awgrymwyd fod lled-bedestraneiddio canol y dref wedi cyfrannu at y problemau traffig.

Dywedwyd fod preswylwyr ward Mount Pleasant yn dioddef o rai o'r lefelau llygredd gwaethaf nid dim ond yng Nghymru ond ym Mhrydain a'u bod yn haeddu cael rhywbeth wedi'i wneud i liniaru eu sefyllfa.

Anogodd y Dirprwy Arweinydd y Cyngor i gefnogi'r cynnig, gan ddweud fod achos cryf iawn dros wella'r gylchfan. Cytunodd bod yr effaith ar lwyddiant ac egni Cas-gwent fel canol tref yn ogystal ag ar gyfer gyrwyr. Byddai cytuno ar y cynnig yn galluogi'r Cabinet i gysylltu â'r Gweinidog Trafnidiaeth i ddweud fod cyllid ar gyfer astudiaeth WelTag yn fater o frys.

**Cafodd y cynnig ei gario pan gafodd ei roi i bleidlais.**

## 15. Cwestiynau gan Aelodau:

### 15.1. Gan y Cynghorydd Sir Paul Pavia i'r Cynghorydd Sir Martyn Groucutt, Aelod Cabinet dros Addysg

*A all yr Aelod Cabinet dros Addysg wneud datganiad ynghylch y camau y mae'r Cyngor yn eu cymryd i ddarparu cymorth iechyd meddwl ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 4 a Chweched Dosbarth yn Sir Fynwy?*

*Gadawodd y Cynghorwyr Sir Tony Easson a Richard John y cyfarfod am 17:38pm*

Diolchodd yr Aelod Cabinet i'r aelod am y cwestiwn a ddaeth ar amser cyfleus i ystyried profiadau dysgwyr a fydd newydd sefyll y set gyntaf o arholiadau ffurfiol ers 2019. Mae haenau ychwanegol profiad Covid wedi tarfu ar ddysgu a chynyddu pryderon. Mae llu o ddulliau i gefnogi dysgwyr ac ystod eang o gymorth ar gael gan bartneriaid o fewn a hefyd tu allan i Gyngor Sir Fynwy. Ar y lefel ehangaf caiff ymagwedd gyffredinol ar lesiant emosiynol a iechyd meddwl ei sefydlu. Mae pob ysgol yn gweithio tuag at ymwreiddio ymagwedd ysgol gyfan at iechyd a lles meddwl, mae hyn yn cynnwys cymorth iechyd meddwl. Mae Ysgolion Brenin Harri VIII ac Ysgol Cas-gwent wedi cymryd rhan yng nghynllun peilot Iechyd Cyhoeddus Cymru a aeth yn dda. Bydd Ysgol Cil-y-coed a'r Gwasanaeth Cyfeirio Disgyblion yng ngham 2 sy'n dechrau ym mis Medi 2022.

Mae Cyngor Sir Fynwy wedi datblygu cynllun gweithredu is-grŵp o'r data rhwydwaith ymchwil iechyd ysgolion uwchradd. Mae'r arolwg yn trin nifer o faterion cysylltiedig ag iechyd a llesiant ac yn helpu i benderfynu meysydd ffocws. Wrth i anghenion gynyddu gall disgyblion hefyd gael mynediad i gynigion ehangach tebyg i'r Cymorth Llythrennedd Addysgol neu gwnsela mewn ysgolion. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnig cefnogaeth fwy dwys i unigolion. Mae gan bob ysgol uwchradd seicolegydd addysgol cyswllt a all roi cefnogaeth yn ogystal â hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth am faterion penodol.

Eleni mae ysgolion wedi derbyn hyfforddiant yn cynnwys Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl Ieuenctid mewn Ysgolion, Ysgolion sy'n Ystyriol o Drawma ac Atal Hunanladdiad a Hunan-anafu. Cafodd pecyn hyfforddiant ei ddatblygu hefyd i gefnogi dysgwyr sy'n osgoi ysgol am resymau seiliedig ar emosiwn. Mae cynigion eraill o gymorth drwy Banel Help Cynnar Sir Fynwy ac asiantaethau tebyg i'r Gwasanaeth Ieuenctid a Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed.

Tu hwnt i ysgolion, mae Gwasanaeth Ieuenctid Sir Fynwy yn darparu prosiect Shift sy'n cynnig cymorth un-i-un heb fod yn glinigol i bobl ifanc 11-25 oed. Comisiynwyd Mind Sir Fynwy i gefnogi pobl ifanc sydd â phryderon iechyd meddwl yn dod i'r amlwg.

Fel atodiad gofynnodd y Cynghorydd Sir Pavia os yw'r Awdurdod yn rhoi unrhyw gefnogaeth ychwanegol yn ei lle o amgylch y dyddiadau allweddol ym mis Awst ar gyfer Safon Uwch a TGAU.

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet fod swyddogion yn gweithio'n galed bob blwyddyn o amgylch y cyfnod canlyniadau ac y byddai'n siarad gydag uwch swyddogion i sicrhau fod cefnogaeth ddigonol ar gael.

**16. Dyddiad y cyfarfod nesaf – dydd Iau 21 Gorffennaf 2022**

Nodwyd y dyddiad

**The meeting ended at 5.50 pm**